*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 368 (Cy. 113)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *23 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 294(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Ebrill 2021.

**Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (troseddau sy'n ymwneud â physgota môr)—

(a) ym mharagraff 2, hepgorer is-baragraff (d);

(b) hepgorer paragraff 4;

(c) yn lle paragraff 6 rhodder—

"**6.** Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, trosedd o dan—

(a) adran 139(1)(b) (y drosedd o dorri is-ddeddfau neu orchmynion)(**3**), i'r graddau y mae'n ymwneud ag unrhyw orchymyn a wneir o dan—

(i) adran 134A (gorchmynion sy'n ymwneud â manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr: Cymru)(**4**);

(**1**) 2009 p. 23; gweler adran 294(8) am y diffiniad o "appropriate national authority".
(**2**) O.S. 2019/363 (Cy. 86), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/602 (Cy. 127).
(**3**) Diwygiwyd adran 139(1)(b) gan baragraff 23(2)(b) o Atodlen 10 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22) ("Deddf 2020").
(**4**) Mewnosodwyd adran 134A gan baragraff 17 o Atodlen 10 i Ddeddf 2020.

(ii) adran 134B (gorchmynion sy'n ymwneud â manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr: rhanbarth môr mawr Cymru)(**5**);

(iii) adran 136(1A) (gorchmynion interim)(**6**);

(b) adran 190 (troseddau)(**7**).";

(d) ar ôl paragraff 8 mewnosoder—

"**8A.** Yn Neddf Pysgodfeydd 2020(**8**), trosedd o dan—

(a) adran 12(3) (mynediad i bysgodfeydd Prydain gan gychod pysgota tramor);

(b) adran 14(6) (cychod pysgota Prydeinig y mae'n ofynnol iddynt fod wedi eu trwyddedu);

(c) adran 16(6) (cychod pysgota tramor y mae'n ofynnol iddynt fod wedi eu trwyddedu os ydynt o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain);

(d) paragraff 1(4) o Atodlen 3 (pŵer i osod amodau ynghlwm wrth drwydded pysgota môr)."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2021

(**5**) Mewnosodwyd adran 134B gan baragraff 17 o Atodlen 10 i Ddeddf 2020.
(**6**) Mewnosodwyd adran 136(1A) gan baragraff 19(2) o Atodlen 10 i Ddeddf 2020.
(**7**) Diwygiwyd adran 190 gan O.S. 2015/664.
(**8**) 2020 p. 22.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/363) (Cy. 86) ("Gorchymyn 2019") o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22) ("Deddf 2020").

Mae Gorchymyn 2019 yn creu cynllun ar gyfer dyroddi a thalu hysbysiadau cosb ynglŷn â throseddau penodol yn ymwneud â physgota môr ("troseddau cosb").

Mae Deddf 2020 yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad llestrau tramor i bysgodfeydd yng Nghymru ac ym mharth Cymru, ac ar gyfer trwyddedu llestrau pysgota gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn dirymu darpariaethau mewn deddfwriaeth arall a oedd yn llywodraethu'r materion hynny. Mae'r Gorchymyn hwn felly yn diweddaru'r rhestr o droseddau cosb sydd wedi ei chynnwys yng Ngorchymyn 2019 drwy ddileu cyfeiriadau at ddarpariaethau trosedd sydd wedi eu dirymu gan ddarpariaethau yn Neddf 2020 a chynnwys cyfeiriadau at y darpariaethau newydd perthnasol.

Mae Deddf 2020 hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n ymwneud â manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr ac mae'n darparu ei bod yn drosedd torri'r gorchmynion hynny. Mae'r Gorchymyn hwn felly yn ychwanegu'r drosedd honno at y rhestr o droseddau cosb a bennir yng Ngorchymyn 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.